REDDOT

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL

'YN EICH HELPU CHI I GYNLLUNIO AR GYFER POB CYFNOD YN EICH BYWYD'

WWW.REDDOTGROUP.CO.UK

'YN TYFU DRWY ROI EIN CLEIENTIAID WRTH GALON EIN BUSNES'

WWW.REDDOTGROUP.CO.UK

CROESO I RED DOT

MAE CYNLLUNIO DYFODOL ARIANNOL CYFFORDDUS YN CYMRYD AMSER.

Gosod eich nodau yw'r cam cyntaf i lwyddiant.
Mae cael nodau yn rhoi ffocws a chyfeiriad i chi.

Dyna lle gallwn ni helpu. Mae bod yn annibynnol yn golygu bod y cyngor yr ydym yn ei roi yn gwbl ddiduedd, ac yn ein galluogi i argymell yr atebion mwyaf priodol i'ch anghenion ariannol.

Cysylltwch â ni heddiw i ddechrau eich taith.

WWW.REDDOTGROUP.CO.UK

AMDANOM NI

Mae Red Dot yn gwmni o gynghorwyr ariannol annibynnol a sefydlwyd yn 2001. Rydym yn arbenigo mewn rhoi cyngor ynglŷn â phensiynau, buddsoddiadau, morgeisi, diogelwch cyfoeth a phersonol.

Wedi ein lleoli yn Ne Cymru, rydym yn rhoi cyngor ariannol i unigolion a busnesau ar bob cam o'u cylchred cynllunio ariannol, ble bynnag yr ydych yn y DU.

PAM DEWIS RED DOT?

P'un a ydych yn bwriadu edrych am gyngor ariannol am y tro cyntaf, eisiau adolygu eich cyllid neu wedi cael cyngor ariannol yn y gorffennol rydym wrth law i helpu.

Ni Mae ein cleientiaid yn gwerthfawrogi ein gallu i wneud y broses o gael cyngor ariannol yn un syml a phleserus.

Rydym yn sicrhau ein bod yn cymryd yr amser i ddeall eich anghenion, eich nodau a'ch dewisiadau cyn i ni wneud unrhyw argymhellion.

EIN HYMAGWEDD

Gallwn wneud ein gwaith dros y ffôn, mewn cyfarfodydd ar-lein a gallwn hefyd gwrdd â'n cleientiaid yn eu gweithle neu eu cartref yn ogystal â'n swyddfeydd ni.

Rydym yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill, fel cyfrifwyr a chyfreithwyr i ddarparu gwasanaeth llyfn i chi.



WWW.REDDOTGROUP.CO.UK

SUT RYDYM NI'N GWEITHIO

PROSES CHWE CHAM RED DOT;

- **CYFARFOD AC ADOLYGU CYCHWYNNOL**
  Nodi eich anghenion personol a beth sy'n bwysig i chi.
- **DOD I'CH ADNABOD CHI**
  Casglu gwybodaeth berthnasol am eich amgylchiadau personol.
- **DADANSODDIAD**
  Gwerthusiad o'ch amgylchiadau ariannol unigol.
- **ARGYMHELLIAD**
  Rhoi cyngor i ddatblygu eich cynllun unigol.
- **GWEITHREDU**
  Dod i gytundeb ar sut a phryd y caiff y cynllun ei weithredu.
- **GWASANAETH A CHYDBERTHYNAS BARHAUS**
  Monitro eich cynnydd yn rheolaidd.

PAM DEFNYDDIO NI?

CYNGOR ADDAS

Nid ydym wedi ein clymu i unrhyw fanc stryd fawr, darparwr yswiriant na chymdeithas adeiladu ac felly gallwn gynnig cyngor gwirioneddol annibynnol. Mae gennym gynghorwyr sy'n arbenigo ym mhob sector ariannol i helpu i sicrhau eich bod yn cael y cyngor mwyaf addas posibl.

HAWDD I'W DDEALL

Rydym yn gwrando ar eich gofynion ac yna'n defnyddio ein profiad i ddod o hyd i'r atebion gorau i chi. Rydym yn symleiddio'r ffeithiau allweddol i'ch galluogi i wneud y penderfyniad mwyaf addas i chi.

SYMLEIDDIO'R BROSES

Rydym yn gweithredu mewn ffordd ac ar adeg sy'n addas i chi — hynny yw, rydym yn cael gwared ar yr holl drafferth i chi.

PERTHNASOEDD

Bydd gennych gynghorydd ymroddedig a'n nod yw dechrau perthynas hir gyda chi a fydd o fudd i'r ddwy ochr.

WWW.REDDOTGROUP.CO.UK

EIN GWASANAETHAU

DIOGELU

Mae pob un ohonom yn cael cyfnodau mewn bywyd pan mae pethau'n gallu newid, felly mae'n bwysig sicrhau bod gennych y trefniadau cywir ar waith i'ch diogelu chi a'ch anwyliaid.

Mae amrywiaeth o wahanol bolisïau ar gael a fydd yn gallu ein diogelu ni os byddwn yn wynebu salwch critigol, anaf, diweithdra neu hyd yn oed farwolaeth.

Gyda'n cyngor ni, gallwch fod yn hyderus eich bod yn gwneud y penderfyniadau mwyaf priodol ar sail eich sefyllfa ariannol a theuluol sy'n iawn i'ch anghenion personol.

BUDDSODDIADAU



Gall Red Dot eich helpu i wneud penderfyniadau deallus am y dewisiadau buddsoddi sy'n briodol i chi drwy asesu eich blaenoriaethau a'ch nodau mewn bywyd.

Gallai pob math o amgylchiadau newid a pheri i'ch cyfoeth leihau, rhai yn anochel a rhai yn annisgwyl. Mae ein cynghorwyr yn cymryd yr amser i ddeall eich anghenion a gallant roi'r wybodaeth a'r cyngor i chi i'ch helpu i wneud y penderfyniadau cywir i chi, eich teulu, eich busnes a'ch dyfodol.

Efallai y bydd gwerth buddsoddiadau (gan gynnwys eiddo) a'r incwm sy'n deillio ohonyn nhw'n gostwng yn ogystal â chodi, ac efallai na fyddwch yn cael y swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol yn ei ôl.

PENSIYNAU

Efallai mai paratoi ar gyfer eich ymddeoliad yw'r penderfyniad ariannol pwysicaf y byddwch chi'n ei wneud mewn bywyd.

Trwy gynllunio ar ei gyfer yn gywir byddwch yn cael y safon byw yr ydych ei eisiau pan fyddwch yn rhoi'r gorau i weithio.

Bydd Red Dot yn gweithio gyda chi i ystyried yr holl opsiynau yn seiliedig ar eich anghenion i sicrhau bod eich ymddeoliad yn bleserus.

Gall gwerth buddsoddiadau pensiwn (gan gynnwys eiddo) a'r incwm sy'n deillio ohonynt ostwng yn ogystal â chodi.

EIN GWASANAETHAU

MORGEISI

Gallwn helpu cleientiaid gyda phob agwedd ar brynu eiddo a chyllid.

Rydym yn helpu unigolion a busnesau trwy ddeall eich anghenion a chynnig amrywiaeth eang o wasanaethau ac atebion sydd wedi'u teilwra i'ch amgylchiadau personol.

Gan ein bod yn annibynnol, mae gennym fynediad i'r farchnad forgeisi gyfan, ac rydym wedi ymrwymo i ddod o hyd i'r morgais cywir i chi sy'n iawn i'ch gofynion a'ch amgylchiadau unigol.

Gallai eich cartref neu'ch eiddo gael eu hadfeddiannu os na fyddwch yn talu'r ad-daliadau ar eich morgais neu unrhyw ddyled arall a sicrhawyd arno.

YSWIRIANT CYFFREDINOL

Mae yswiriant yn un o bethau hanfodol bywyd a gyda help Red Dot gallwn helpu i'ch diogelu!

Rydym yn cynnig amrywiaeth o wahanol yswiriannau o ddiogelu eich teulu, iechyd, cartref, car, gwyliau, busnes ac eiddo a gallwn gynnig ystod eang o yswiriant cyffredinol.

Gyda hyn mewn golwg, mae angen ystyried pob amgylchiad pan fyddwch chi'n derbyn cyngor a gwybodaeth am yswiriant.

Rydym yn ymchwilio'r farchnad gan ddod o hyd i'r cynllun gorau a mwyaf addas i chi am eich arian yn ogystal â'r yswiriant cywir ar gyfer eich anghenion.

SUT I GYSYLLTU Â NI

Red Dot (Cymru) Ltd

01558 825950

01558 825951

hello@reddotgroup.co.uk

www.reddotgroup.co.uk

LAWRLWYTHWCH EIN AP

App Store

Google Play

NEWYDD AM 2024

Mae gennym raglen addysg ar lein i helpu plant i ddysgu am arian, ewch i'n wefan i gofrestru a chael hwb o adnoddau a gweithgareddau parod am ddim



Mae Red Dot (Cymru) Cyf wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr.
Prif swyddfa: 73 Rhosmaen Street, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, SA19 6LW
Rhif Cofrestredig: 4254949. Awdurdodwyd a rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
Os ydych yn dymuno cofrestru cwyn, ysgrifennwch at Red Dot (Cymru) Ltd yn y cyfeiriad uchod. Rhif ffôn : 01558 825 950 neu anfonwch e-bost i info@reddotgroup.co.uk

RDM21_18 Jan 24 (Cymraeg)